**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 4 Mawrth 2015**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorwyr Pat Jones a Win Mullen-James. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2014 a 12 Ionawr 2015 fel cofnod cywir.* |
| **5** | FERSIWN DDIWYGIEDIG O'R COD GWISG ARFAETHEDIG GOGYFER Â GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD*** *-*<br><br>*(a) yn amodol ar ddiwygiad i 4.2, ii) i ddarllen "ni chaniateir gwisgo trowsus byr" bod y Cod Gwisg Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat diwygiedig yn Atodiad B i'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo i ddisodli'r Cod Gwisg presennol a geir yn amodau trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat y "Llyfr Glas" ar hyn o bryd, a*<br><br>*(b) gweithredu'r Cod Gwisg o 1 Mai 2015.* |
| **6** | COD YMDDYGIAD DA ARFAETHEDIG AR GYFER GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD*** *bod -*<br><br>*(a) Cod Ymddygiad Da Gyrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat, fel y manylwyd yn Atodiad A i'r adroddiad, yn cael ei gymeradwyo yn weithredol o 1 Mai 2015", a*<br><br>*(b) swyddogion i ofyn am gyngor cyfreithiol ar yr ochr gyfreithiol o osod sancsiwn o fewn y* |

| **Agenda Item No** | **Topic** | **Decision** |
|---|---|---|
| | | *Cod Ymddygiad Da ar gyfer achosion sy'n ymwneud â thrais gan yrwyr tacsi tra ar ddyletswydd, ynghyd â sancsiynau sy'n ymwneud â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau, ac adrodd yn ôl i gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol.* |
| **7** | AMODAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - DIWYGIADAU ARFAETHEDIG YN YMWNEUD Â GWYRO SEDDI CERBYDAU HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD*** *y dylai amod 2.1(h) sydd wedi'i gynnwys yn yr amodau cerbydau hacni a hurio preifat ("Llyfr Glas") gael ei ddileu ar unwaith.* |
| **8** | ADOLYGU'R POLISI SEFYDLIAD RHYW | ***PENDERFYNWYD*** - <br><br>*(a) gofyn i swyddogion lunio Polisi Sefydliad Rhyw diwygiedig drafft sy'n addas at y diben, i'w gyflwyno iddynt mewn cyfarfod yn y dyfodol, cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a* <br><br>*(b) bod darpariaethau yn Adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 yn cael eu mabwysiadu a'u hymgorffori o fewn y Polisi Sefydliad Rhyw diwygiedig drafft.* |
| **9** | ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD | ***PENDERFYNWYD*** - <br><br>*(a) rhoi awdurdod i swyddogion ddrafftio Polisi Masnachu ar y Stryd sy'n addas at y diben.* <br><br>*(b) Y Cynghorydd Bill Cowie i gael ei enwebu i gysylltu â swyddogion tra mae'r polisi drafft yn cael ei ddatblygu a rhoi awdurdod i swyddogion wneud unrhyw ymgynghori angenrheidiol cyn cyflwyno Polisi Masnachu ar y Stryd arfaethedig i Aelodau.* |
| **10** | DEDDF GWERTHWYR METEL | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a nodi cynnwys yr adroddiadau.* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | SGRAP 2013 - Y DIWEDDARAF AM Y POLISI ARFAETHEDIG | |
| **11** | RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2015 | ***PENDERFYNWYD*** -<br><br>*(a) yn amodol ar gynnwys rhai eitemau ychwanegol fel y cytunwyd yn y cyfarfod, cymeradwyo rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu, ac*<br><br>*(b) i sicrhau cydraddoldeb ar draws y sir, cyfarfodydd y Pwyllgor Trwyddedu i gael eu cynnal yn Neuadd y Sir Rhuthun gydag o leiaf dau gyfarfod y flwyddyn yn cael eu cynnal yng ngogledd y sir.* |
| **12** | DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982 - CAIS AM GANIATÂD I FASNACHU AR Y STRYD | ***PENDERFYNWYD bod y cais am Ganiatâd i Fasnachu ar y Stryd yn cael ei wrthod.*** |